

# Adroddiad Blynyddol

# 2022 – 2023

ANTUR NANTLLE CYF

GWEITHIO ER LLES YR ARDAL




cantorion
cartref
gweithio
awduron
eiddo
doniau
talent
helpu
arbenigwyr
swyddi
dysgu
llechi
gerlan
llyfrgell
lles
technoleg
economi
hybu
cyfleoedd
cymru
parry-williams
cyfle
beirdd
diwydiant
cymraeg
cefnogaeth
busnesau
swyddfa
iaith
addysg
mentro
siopau
gweithdy
antur
gwaith
canolfan
siopa
trafod
teuluoedd
barics
cydweithio
diwylliant
cefnogi
nantlle
dyffryn
perchnogaeth
ymdrech
llenorion
unedau
menter
cymorth
ardal
creu
lleol
swyddfeydd
cartrefi
rhannu
cymunedol
siop
perchnogi
parc
busnes
hwyluso
salem
amrywiaeth
cymuned
hyfforddiant
wyddfa
unigolion
eryri
hanes
isadeiledd
annog
hyrwyddo

# Cynnwys


GAIR GAN Y CADEIRYDD ........ 01

Y BWRDD RHEOLI ........ 02

PRIF GYFLAWNIADAU'R FLWYDDYN ........ 04

Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI ........ 05

Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH ........ 13

DIWEDDGLO ........ 18

CYFRIFON BLYNYDDOL ........ 19

# Gair gan y Cadeirydd

Mae'r byd wedi newid cryn dipyn ers i ni gael ein cyfarfod cyffredinol blynyddol 'arferol' diwethaf yn ôl yn 2019, a'r sefyllfa i'r Antur a'r busnesau bychan yr ydym yn gweithio i'w cefnogi dal mor heriol ag erioed. Mae'r flwyddyn ddiwethaf yma wedi bod ymysg y rhai anoddaf mewn cenhedlaeth, gyda chostau popeth wedi cynyddu yn sylweddol a'r hanfodion i redeg busnes a chynnig gwasanaethau i'r gymuned yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru – deunyddiau crai, ynni a thanwydd – wedi neidio yn syfrdanol.

Cynnal a goroesi yn hytrach na thyfu yw'r nod wedi bod i'r mwyafrif ar hyd a lled y wlad o reidrwydd, oherwydd sefyllfa'r byd ehangach, ond mae unigolion a busnesau'r Dyffryn wedi profi unwaith eto eu bod mor greadigol, ymrwymedig a gwydn ag unrhyw un drwy barhau i weithio'n galed, cynnig gwasanaethau a chynnal cyflogaeth yma yn Nyffryn Nantlle er pob her. Mae'n braf gallu adrodd fod rôl gynorthwyol yr Antur drwy gadw rhenti i'n tenantiaid mor isel â phosibl a bod mor hyblyg â phosibl gyda'n telerau yn parhau i fod o gymorth i gynnal ac annog mwy o weithgarwch economaidd yn yr ardal, a'r prosiectau yr ydym wedi eu gweithredu ac ynghanol eu gweithredu yn sicr o ddod â mwy byth o gyfleoedd i'r Dyffryn i'r dyfodol.

Mae Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu wedi hen sefydlu ei hun fel un o brif ganolfannau preswyl ac awyr agored Eryri ers i'r Antur gymryd yr awenau yn 2015 ac wedi croesawu miloedd lawer o westeion o bell ac agos i aros yn yr ardal ac ymfalchïo yn niwylliant a hanes unigryw yr adeilad a'r ardal arbennig hon. Mae'r cyfraniad i'r economi leol hefyd wedi bod yn sylweddol ac mae cynlluniau i ehangu ar hyn fwy byth i'r dyfodol ar y gweill.

Rydym yn parhau ein gwaith o gynnal, gwella a buddsoddi yn adeiladau'r Antur ledled yr ardal, er mwyn eu cadw mewn cyflwr da i'w defnyddio gan fusnesau lleol er mwyn cynnal dros 140 o swyddi.

Mae fformiwla yr Antur yn un syml ers y cychwyn: perchnogi asedau yn y gymuned a'u cadw at ddefnydd economaidd i greu cyfleoedd. Erbyn hyn, mae'n fodel sydd wedi ei gydnabod yn eang fel ffordd o warchod cymunedau, iaith a gwaith i'r dyfodol. Tîm bychan ymroddedig o staff a chyfarwyddwyr gwirfoddol sy'n gyfrifol am lwyddiannau yr Antur dros y blynyddoedd, gyda chymorth asiantaethau allanol ac arianwyr yn hanfodol i'r gallu i wireddu prosiectau. Diolch i Robat ein Prif Swyddog am ei waith ar ein rhan unwaith eto eleni.

Os hoffech ymuno â ni i weithio er lles yr ardal, cysylltwch â chroeso. Rydym yn awyddus i glywed unrhyw syniadau am brosiectau i greu cyfleoedd yn Nyffryn Nantlle.

**HUW EVANS**
**CADEIRYDD**

# Y Bwrdd Rheoli


Huw Evans
CADEIRYDD


Beryl Fretwell
IS-GADEIRYDD


Myrddin Williams


Dafydd Owen


Gwynne Williams


Eifion Davies



Guto Huws


John Pritchard


Owain Rowlands


Dyfed Edwards


Judith Humphreys


Talfryn Griffiths


Richard Wyn Huws


Alun Ffred Jones

# Aelodau'r Bwrdd Rheoli

| | | |
|---|---|---|
| **Huw Evans** | CADEIRYDD | Amaethwr a gŵr busnes |
| **Beryl Fretwell** | IS-GADEIRYDD | Swyddog menter gymdeithasol wedi ymddeol |
| **Myrddin Williams** | | Pen Swyddog Adnewyddu eiddo wedi ymddeol |
| **Dafydd Owen** | | Cyfarwyddwr cwmni teithio |
| **Gwynne Williams** | | Peiriannydd gwresogi wedi ymddeol |
| **Eifion Davies** | | Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu |
| **Guto Huws** | | Amaethwr a gŵr busnes |
| **John Pritchard** | | Cyfrifydd wedi ymddeol |
| **Owain Rowlands** | | Rheolwr lleoliadau digwyddiadau |
| **Dyfed Edwards** | | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Judith Humphreys** | | Actores, cynghorydd cymuned a gweithiwr ieuenctid |
| **Talfryn Griffiths** | | Cyfreithiwr a Barnwr wedi ymddeol |
| **Richard Wyn Huws** | | Perchennog gwinllan a gŵr busnes |
| **Alun Ffred Jones** | | Awdur ac Aelod Cynulliad wedi ymddeol |

## Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

## Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon

## Archwilwyr

A. Hughes-Jones, Dyson & Co. (Cyfrifwyr Siartredig), Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1NS

## Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 8 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth a'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar nos Iau, Tachwedd 24$^{ain}$ 2022 yng Nghapel Soar, Penygroes. Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – Huw Evans, Beryl Fretwell, Karen Owen a Judith Humphreys. Ail etholwyd y pedwar.

## Staff

| | |
|---|---|
| **Robat Jones** | Prif Swyddog Antur Nantlle |
| **Nerys Jones** | Gofalwraig y Ganolfan Fenter |
| **Nia Noone** | Gofalwraig Tŷ Iorwerth |

# Prif Gyflawniadau'r Flwyddyn

## buddsoddi & MEITHRIN

**£20,000** o fenthyciadau di-log wedi eu rhoi allan i fusnesau lleol er mwyn ehangu eu gweithgareddau drwy gynllun newydd **Mynd Amdani**

## Rhoi'r Dyffryn AR Y MAP

Mae Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu yn gyrchfan i ymwelwyr, ysgolion, grwpiau ac elusennau gael mwynhau profiadau awyr agored diwylliannol yn Eryri, a'r gwaith o ddenu ymwelwyr i Ddyffryn Nantlle drwy hyn yn parhau. Dyma esiampl dda o gynllun **Twristiaeth Cymunedol** yn dod â buddion economaidd i gymuned gan fod yr ased o dan berchnogaeth lleol a'r busnesau bychan sy'n elwa hefyd yn rhai lleol.

## Trafod, cydweithio a chefnogi

**80** o fudiadau, busnesau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth;

**7,000+** wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir.

## Cynllunio'r DYFODOL

Drwy wireddu cynllun uchelgeisiol i ddiogelu cyn safle Gwasg Dwyfor i berchnogaeth cymunedol i'r dyfodol, a thrwy hynny sicrhau defnydd fforddiadwy o safle mewn lleoliad strategol bwysig yn y Dyffryn gan fusnesau lleol, rydym yn awr yn symud ymlaen i ail ran y cynllun drwy weithredu rhaglen o welliannau gwerth dros **£500,000** i wella perfformiad ynni, lleihau costau rhedeg a gwneud busnesau ein tenantiaid yn fwy hyfyw a gwydn.

## CYNNAL, CADW A GWELLA ADEILADAU YN Y GYMUNED

**£55,000+** o fuddsoddiad gan ddefnyddio cyflenwyr lleol fel rhan o raglen waith barhaol i gadw adeiladau lleol mewn cyflwr da.

Dros **140** o swyddi a thros **50** o fusnesau yn cael eu gwarchod yn ardal Dyffryn Nantlle – cyfraniad sylweddol i'r economi leol a seiliau cadarn yn cael eu gosod i'r dyfodol.

# Y Pwyllgor Diwydiant ac Economi

## Cadeirydd: Dafydd Owen

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle.

Rydym yn byw drwy un o'r cyfnodau mwyaf ansicr o fewn cof o safbwynt dyfodol busnesau a chymunedau ac mewn ardal wledig fel hon mae'r effaith i'w weld yn fwy amlwg. Er hyn, gallwn fod yn ddiolchgar fod y sefyllfa yma yn Nyffryn Nantlle ychydig yn fwy gobeithiol er pob her.

Mae nifer o sefydliadau yn cynnwys yr Antur wedi llwyddo i ddenu grantiau sylweddol i'r ardal yn y blynyddoedd diweddar a chreu prosiectau sydd â'r potensial i ddod â buddion hirdymor i Ddyffryn Nantlle.

Mae gwaith yn parhau ar gynllun cyffrous ofnadwy i ddod â chanolfan feddygol newydd i Benygroes - prosiect sydd erbyn hyn hefyd yn cynnwys cartref parhaol newydd i Theatr Bara Caws. Mae pawb yn y Dyffryn yn awyddus iawn i weld y cynllun hwn yn dwyn ffrwyth.

Ar ôl blynyddoedd o waith, bu i gais Cyngor Gwynedd i glustnodi dyffrynnoedd llechi'r sir, yn cynnwys Dyffryn Nantlle fel safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn llwyddiannus, ac mae'r Antur wrthi yn cydweithio gyda'r Cyngor ar gynlluniau fydd yn dod a buddion economaidd a chymdeithasol i'r ardal yn sgìl hyn.

Asgwrn cefn gweithgarwch economaidd y Dyffryn yw'r busnesau a'r sefydliadau sydd wedi bod yn gweithio yn ddiwyd ers blynyddoedd i gynnig gwasanaethau a chynnal swyddi yma yn y Dyffryn. Mae ein diolch iddynt, fel tenantiaid ac fel arall, unwaith eto yn fawr. Creu'r amgylchiadau a'r cyfleoedd i fentro a llwyddo yw ein rôl ni, yn ogystal â gwthio'r agenda am gymorth a chefnogaeth i fusnesau'r Dyffryn.

Yr ydym o hyd yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

# Y Banc

Ers agor ei ddrysau ar ei newydd wedd ym mis Medi 2018 mae Y Banc wedi llwyddo i ddenu miloedd o bobl drwy'r drws.




Mae'r cyfleusterau yn apelio i drigolion lleol ac ymwelwyr, ac yn cynnig lleoliad pwysig i rieni â phlant ddod at eu gilydd mewn awyrgylch braf a chroesawgar.

Bellach dan ofal medrus busnes arlwyo lleol Cegin Ceri sydd wedi ei sefydlu fel canlyniad uniongyrchol o ddatblygiad y prosiect cychwynnol, mae'r elfennau gwreiddiol pwysig yn dal yn cael eu cynnig yma sef deli yn cynnig bwydydd o bob math, lle chwarae meddal i blant bach a siop yn gwerthu cynnych lleol safonol.

Mae yma le i feicwyr gadw eu beics yn ddiogel a'u gwasanaethu gyda ffrâm ac offer arbenigol, tra'n mwynhau paned a danteithion melys cyn mentro i fyny allt Drws y Coed neu ymlaen ar hyd Lôn Eifion, yn ddibynnol ar y coesau!

Deli, siop cynnyrch lleol, 'co-op' cynhyrchwyr lleol, man chwarae i blant bach, pwynt Wi-Fi ffeibr am ddim, lle i gymdeithasu a chyfleusterau i feicwyr

# Mynd Amdani

## Cronfa benthyciadau hyblyg i helpu sefydlu neu ddatblygu busnes yn ardal Dyffryn Nantlle

Mewn cydweithrediad gydag Arloesi Gwynedd Wledig a Menter Môn, ac yn seiliedig ar lwyddiant cynllun Be Nesa Llŷn, cododd y cyfle i sefydlu cynllun benthyciadau di-log i fod o fudd i fusnesau presennol a newydd Dyffryn Nantlle. Mae'r cynllun yn ymestyniad naturiol o waith bob dydd yr Antur.

Gyda chyfraddau llog yn codi, mae Mynd Amdani yn mynd yn groes i'r duedd ac yn cynnig benthyciadau di-log i fusnesau. Gwelsom fod methu benthyca symiau cymharol isel o arian oherwydd graddfeydd llog y farchnad agored yn rhwystro datblygiad nifer o gynlluniau gan fusnesau bychan. Mae cadw momentwm a pharhau i arloesi a datblygu yn hanfodol i ddatblygiad a ffyniant busnesau, ac felly gwelsom y cyfle i oroesi'r broblem er mwyn galluogi i entrepreneuriaid lleol ddatblygu eu busnesau drwy sefydlu cronfa fenthyciadau lleol.

Mae'r Antur wedi buddsoddi £10,000 yn y cynllun ochr yn ochr â chyfraniad o £10,000 gan Menter Môn. Hyd yma, mae pedwar busnes wedi derbyn buddsoddiad o £5,000 yr un i'w galluogi i wireddu cynlluniau o fewn eu busnesau unigol, ac mae'r cyfnod ad-dalu yn amrywio o fusnes i fusnes i gynnig cymaint o hyblygrwydd â phosib.

Dros amser, fel bydd yr ad-daliadau yn dod yn ôl i mewn, byddwn yn cynnig rhagor o fenthyciadau drwy broses ymgeisio agored, fel bydd yr arian yn cylchdroi sawl gwaith ac yn sbardun i greu cyfleoedd di-ri dros y blynyddoedd i entrepreneuriaid y dyfodol.

Yn ogystal â chynnig benthyciadau di-log, mae cymorth busnes ar gael hefyd. Bydd yr ymgeiswyr yn cael y cyfle i weithio gyda'r Hwb Menter, sy'n darparu'r wybodaeth, yr arweiniad a'r ysbrydoliaeth i entrepreneuriaid drawsnewid eu syniadau i realiti a thrwy hynny greu busnesau llwyddiannus a hyfyw. Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys cymuned o unigolion o'r un anian i rannu syniadau a chynnig anogaeth, cyngor busnes ac amrywiaeth o ddigwyddiadau addysgol a chymdeithasol.

**Y pedwar busnes yn ardal Dyffryn Nantlle sydd wedi derbyn benthyciad o £5,000 yr un yn rownd gyntaf cynllun benthyciadau Mynd Amdani yw Braf, Dinas Dinlle; Mari's Old School Cakes, Dinas; Sensori Sara, Llanwnda a Iogis Bach, Penygroes.**

Cysylltwch gyda ni am sgwrs os oes gennych chi syniad busnes sydd angen buddsoddiad i'w wireddu. Bydd rownd ymgeisio arall ar agor yn fuan a gallwch baratoi eich ceisiadau a chynlluniau busnes ymlaen llaw yn barod at pan ddaw'r amser.

## Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

**O NERTH I NERTH...** *ystadegau ers agor yn 2015*

£225,000
incwm

9,000+
o westeion




**gwaith cynnal a chadw**
*i barhau i wella'r cyfleusterau*

**cynnig telerau ffafriol i ysgolion a chymdeithasau lleol ac elusennau**
*rhoi cyfle i bawb fwynhau'r awyr agored*

**gweithio mewn partneriaeth**
*i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib drwy gyfrwng y Gymraeg*

**hybu'r dyffryn**
*ac annog gwesteion i mewn i'r ardal er mwyn cefnogi busnesau lleol*

## Llwyddiant parhaol, gwerth am arian a safonau uchel




Mae Canolfan Rhyd Ddu wedi cael ei adnabod fel un o'r 10 caban cysgu annibynnol gorau yng ngwledydd Prydain, ac mae adborth ein gwesteion yn parhau i fod yn ffafriol iawn flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu dyfarnu gan ein gwesteion i fod ymysg y gorau sydd ar gael yn Eryri am lety o'r fath, ac rydym yn gweld nifer cynyddol o westeion yn dod yn ôl i aros yma dro ar ôl tro sy'n galonogol iawn.

## Hyfforddiant a phrofiadau awyr agored



Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd rydym yn darparu hyfforddiant awyr agored hollol ddwyieithog o'r radd flaenaf gan arweinwyr profiadol a thrwyddedig, yn cynnwys defnydd offer arbenigol.

Mae'r dewis o weithgareddau yn eang iawn â'r arlwy yn cynnwys canŵio, cerdded afon, dringo, beicio mynydd, mynydda, cyfeiriannu a mwy - rhywbeth at ddant pawb.

Mae nifer o ysgolion lleol yn cael budd o'r gwasanaeth hwn am delerau ffafriol, ac rydym yn gobeithio ehangu ar y gweithgarwch yn y flwyddyn nesaf i gynnig pecyn o weithgareddau cwricwlaidd ar gyfer ysgolion Cymru.

Gwasanaeth Awyr Agored

## Gwyliau gwyrdd

Bu ein cais diweddar am gymorth ariannol i Gronfa Cymunedol Eryri dan ofal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn llwyddiannus, ac felly yn y misoedd nesaf byddwn yn gosod paneli solar a sustem batri yng Nghanolfan Awyr Agored Rhyd Ddu.



Mae gallu gosod mesurau fel hyn yn rhan o bolisi'r Antur i geisio cadw'r asedau sydd yn ein gofal yn hyfyw ac mor eco gyfeillgar â phosibl ac mae ein diolch i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am eu cymorth i'n galluogi i wneud hyn yn fawr.

Drwy gadw costau rhedeg mor isel â phosib byddwn mewn sefyllfa i gynnig y telerau gorau posib i sefydliadau lleol.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK



# Cydweithio gyda Tîm Achub Mynydd Llanberis

Mae Tîm Achub Mynydd Llanberis yn fudiad cwbl wirfoddol sy'n ymateb i unigolion sydd mewn angen ar yr Wyddfa a'r mynyddoedd cyfagos. Mae'r Tîm ar alw 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ac maent yn dibynnu'n llwyr ar roddion gan aelodau'r cyhoedd, i gyflawni'r gwasanaeth achub hanfodol hwn.

Mae’r mudiad yn ymgymryd a nifer fawr achosion ar Yr Wyddfa yn ardal llwybrau Cwellyn a Rhyd Ddu ac ar y pryd roeddynt yn cael cryn drafferthion gyda cysylltiadau radio ar yr ochr hwn i’r mynydd, yn enwedig wrth gyfathrebu gyda’u canolfan yn Nant Peris a gydag aelodau tra allan ar y mynydd mewn achosion brys.

Pan daeth cais gerbron gan swyddogion y mudiad am gymorth i leoli cyfarpar cyfathrebu yng Nghanolfan Rhyd Ddu, a fyddai’n arwain at gynorthwyo rhai sydd mewn trafferthion ar Yr Wyddfa ac ar Crib Nantlle ac arbed bywydau yn y pen draw, roedd yr Antur yn fodlon iawn i fod o gymorth.

Bellach, mae cyfarpar arbenigol wedi’w osod yma a’r gallu i gyfathrebu ar bob rhan o’r Wyddfa fel canlyniad o fudd mawr i’r mudiad a’r dringwyr a’r cerddwyr sydd mewn trafferthion.

Braint o’r mwyaf yw cael chwarae rhan fach iawn yng ngwaith gwych Tîm Achub Mynydd Llanberis drwy’r cydweithio yma.



# Y Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth

Cadeirydd: Myrddin Williams




Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod **pob un** o'n hunedau a'n swyddfeydd yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith fforddiadwy yn ardal Dyffryn Nantlle.

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau gwaith sydd ar osod yn y Dyffryn gan berchnogion eraill hefyd yn llawn, a rhai newydd wrthi yn cael eu codi yn breifat sy'n galonogol iawn.

Mae sefydlu Canolfan Gwyrddfai ar y stâd ddiwydiannol drwy bartneriaeth Adra, Coleg Menai, Welcome Furniture, Bwydydd Pero a Travis Perkins yn yr hen ffatri bapur, nid yn unig wedi creu dwsinau o swyddi ar safle ble collwyd bron i 100 pan bu i'r ffatri gau yn 2020, ond hefyd wedi creu bwrlwm newydd ar y stâd sy'n uchafu'r galw eto fyth am ragor o unedau gwaith yn y Dyffryn.

Rydym yn edrych am gyfleoedd i godi rhagor o unedau yn y dyfodol i ddod a mwy byth o weithgarwch economaidd a swyddi i'r ardal.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i hybu menter mae'r Antur yn cynnig hwb i fusnesau newydd sbon drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

---

Mae rhaglen yr Antur o brynu a datblygu eiddo segur yn Nyffryn Nantlle ers 1991 wedi sicrhau fod nifer fawr o adeiladau – portffolio eiddo gwerth dros **£6miliwn** at bwrpas yswiriant – wedi eu diogelu at ddefnydd pobl a busnesau lleol, sy'n hwb mawr i'r gymuned a'r economi.

---

## Ffarwelio â'r Ganolfan Dechnoleg

Gyda'r newid yn y maes technoleg gwybodaeth wedi golygu nad oedd angen canolfan dechnoleg 'draddodiadol' a chyfrifiaduron desg er mwyn cynnal cyrsiau a hyfforddiant, amrywiodd yr Antur yr arlwy a'r gwasanaeth oedd ar gael yma i'r gymuned dros y blynyddoedd drwy gynnal sesiynau Canolfan Byd Gwaith, Cyngor ar Bopeth, cyfarfodydd cyhoeddus, clybiau gwaith cartref, cyrsiau dysgu Cymraeg, cyrsiau gwefan gymunedol a llawer iawn mwy, ochr yn ochr a chyrsiau hwyliog dan arweiniad Coleg Harlech / WEA.

Mae miloedd o bobl wedi bod drwy'r drysau a chael budd o'r Ganolfan arbennig hon ac rydym yn hynod o falch o hynny. Ond, fel llawer i beth, yn anffodus rhoddodd Cofid ddiwedd ar gyfnod y Ganolfan Dechnoleg uwchben y Llyfrgell yn 20 Heol y Dŵr yn 2020.

Wedi ei sefydlu ym 1997 roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle yn ddatblygiad arloesol ar y pryd – y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu gydol oes Cyngor Gwynedd. Dros y blynyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fath o hyfforddiant yn y maes, felly bu i'r Antur (gyda chymorth gwerthfawr Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd) uwchraddio'r cyfrifiaduron i gyd sawl gwaith er mwyn parhau i gynnig y cyfleusterau gorau posib.

Rydym yn ddiolchgar i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers y cychwyn cyntaf i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes.

Er y siom o gau'r Ganolfan Dechnoleg, yn amserol iawn cododd yr angen am swyddfa i gwmni cyfreithiol newydd sbon oedd yn bwriadu agor practis ym Mhenygroes ac yn methu canfod lleoliad. Rhag colli'r cyfle i sefydlu busnes a gwasanaeth gwerthfawr newydd yn y pentref, roedd yr Antur yn fodlon iawn i fod o gymorth drwy drawsnewid yr hen ystafell hyfforddiant i fod yn swyddfa fodern a chyfforddus ynghanol y pentref a thrwy hyn alluogi i gwmni Lloyd Evans Hughes gael ei sefydlu.

Rydym yn falch iawn o'u llwyddiant ysgubol hyd yma sydd wedi arwain at greu rhagor o swyddi ac agor ail swyddfa ar Heol y Dŵr, Penygroes mewn llai na thair blynedd.

Mae pob un o'n tenantiaid yn gweithio'n hynod o galed i ddarparu gwasanaethau a chynnal swyddi yma yn y Dyffryn, ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar iddynt i gyd am eu gwaith. Ychydig iawn o newid fu yn rhestr tenantiaid yr Antur eleni, ond cawsom y pleser o groesawu rhai tenantiaid newydd i gychwyn ar eu taith o sefydlu busnes newydd yn Nyffryn Nantlle, a chefnogi tenantiaid presennol ym mha bynnag ffordd y gallem. Mae'n gyffrous iawn cael gweld a bod yn rhan o'r datblygiadau yma, a braint yw i ni gael chwarae rôl gynorthwyol yn hyn i gyd.

Mae'r Antur yma i greu cyfleoedd a rhoi seiliau cadarn yn eu lle fel gall entrepreneuriaid lleol fentro a llwyddo. Drwy gefnogaeth a chymorth yr Antur mae cyfleoedd yma yn Nyffryn Nantlle i fusnesau lleol sefydlu a thyfu. Gyda syniadau, gweledigaeth a gwaith caled y busnesau yma a chefnogaeth ffyddlon trigolion lleol iddynt hwythau, rydym gyda'n gilydd yn cydweithio tuag at y nod o adfywiad economaidd yr ardal.

Mae'n bwysig nodi cyfraniad staff glanhau'r Antur sy'n gofalu am yr eiddo sef Nerys Jones, Gofalwraig y Ganolfan Fenter a Nia Noone, Gofalwraig Tŷ Iorwerth. Rydym hefyd yn ffodus o wasanaeth wythnosol cwmni glanhau Seren dan ofal Zoe Owen o Benygroes, sy'n gofalu am y Llyfrgell, 20 Heol y Dŵr, Siop 22 a Chanolfan Rhyd Ddu.

Diolch yn fawr am eich gwaith caled yn cadw'r adeiladau yn dwt ac yn daclus er budd y defnyddwyr / tenantiaid a'u cwsmeriaid unwaith eto eleni.

Diolch i chi i gyd am eich gwaith trefnus a thrwyadl.

## Parc Menter Dyffryn Nantlle

Pan daeth y cyfle i brynu cyn stâd Gwasg Dwyfor oherwydd ymddeoliad y perchnogion blaenorol, aethom ati i weld pa gymorth allai fod ar gael tuag at hyn. Gyda'r amserlen mor dynn a'r risg o golli perchnogaeth leol ar y safle strategol bwysig yma ar y fynedfa i Stâd Ddiwydiannol Penygroes, ac yn bwysicach er mwyn diogelu'r unedau at ddefnydd fforddiadwy gan fusnesau lleol i'r dyfodol, penderfynwyd i gymryd benthyciad masnachol allan i'w brynu. Aeth y pryniant drwodd ar 30 Mawrth 2023.

Dyma'r cynllun mwyaf yn ariannol i'r Antur erioed ymgymryd ag ef. Mae'n golygu ymrwymiad ariannol hirdymor o dros ddwy filiwn o bunnoedd gan y cwmni i wireddu ein hamcanion ar gyfer y safle yma.

Mae'n hynod gyffrous cael cyhoeddi llwyddiant diweddar yr Antur gyda chais i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a fydd yn ein galluogi i wneud gwelliannau gwerth dros £500,000 i'r safle newydd a'r safle gyferbyn, sef lleoliad prosiect cyntaf un yr Antur yn ôl ym 1991 – Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle. Dros 30 mlynedd yn ddiweddarach, rydym ar y trothwy o raglen waith a fydd yn diogelu'r ddau safle yma i ddefnydd economaidd lleol am ddegawdau i ddod.


CYNGOR GWYNEDD

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Rydym yn gobeithio gwneud gwaith uwchraddio sylweddol ar y ddau safle a gosod mesurau a fydd yn arbed costau ynni i ddefnyddwyr yr unedau i'r dyfodol. Cadw gwasanaethau yn gynaliadwy a chreu cyfleoedd i fentro a llwyddo yw nod y prosiect yma fel pob rhan o waith Antur Nantlle.

Os hoffech ymuno â ni i wneud gwahaniaeth yn y Dyffryn a "Gweithio er lles yr Ardal", yna cysylltwch gyda ni â chroeso. Byddwn yn falch o glywed gennych.


Prif Fynedfa
Uned 4
Uned 3
Uned 2
Uned 1
Uned 5
Uned 6
Uned 7
Uned 8
14500
40500
48500
21500



# Diweddglo

Does dim dwywaith fod bywyd i fusnesau bychan yn y blynyddoedd diwethaf, o safbwynt costau byw, prisiau cynyddol, methu cael gafael ar ddeunyddiau ac ati, heb sôn am bandemig byd eang, wedi bod yn ddigynsail o heriol.

Dros gyfnod Cofid, stopio dros nos wnaeth ein gwaith o edrych am gyfleoedd i ddatblygu prosiectau newydd, ond diolch i sefyllfa unigryw'r Antur yn gweithio gyda chymaint o fusnesau yn y Dyffryn, bu modd i ni warchod a chefnogi ein tenantiaid a busnesau lleol eraill drwy gynnig cyngor ac yn hollbwysig drwy sicrhau fod pawb yn derbyn y cymorth ariannol oedd ar gael iddynt gan y Llywodraeth i'w galluogi i oroesi.

I deuluoedd a chymunedau hefyd mae'r effeithiau yma i'w gweld ym mywydau bob dydd pobl o hyd. 'Tydi pethau dal ddim yn ôl cweit fel yr oeddan nhw' ydi'r teimlad cyffredinol i weld. Mae bywyd yn galed a phawb yn brwydro eu ffordd drwy'r sefyllfa mewn gwahanol ffyrdd.

Ac eto, mae ein problemau ni yma yn y Dyffryn yn fach iawn i gymharu â gwledydd eraill ble mae rhyfel a gwrthdaro erchyll yn creu difrod go iawn a dinistrio bywydau.

Felly er i'r blynyddoedd diwethaf yma ddad-wneud llawer o waith da y blynyddoedd blaenorol i ddenu pobl yn ôl i mewn i Benygroes a'r Dyffryn, gyda gobaith a brwdfrydedd yr edrychwn i'r dyfodol.

Mae Canolfan Rhyd Ddu yn ffynnu, mae Y Banc yn wasanaeth cymunedol pwysig a phob uned sydd dan reolaeth yr Antur yn llawn ac yn cynnal yr economi a swyddi.

Mae datblygiad y ganolfan iechyd newydd ar y gweill, mae Canolfan Gwyrddfai yn ased i Ogledd Cymru i gyd ac mae nifer o sefydliadau eraill yn brysur yma yn darparu gwasanaethau i'r ardal.

Ein targedau am y flwyddyn i ddod yw parhau i wasanaethu ein tenantiaid a busnesau'r Dyffryn; cynnal, cadw a gwella ein stoc eiddo; chwilio am gyfleoedd newydd i greu gwaith; a datblygu Parc Menter Dyffryn Nantlle sef ein prosiect diweddaraf ar y stâd ddiwydiannol.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu ym 1991: creu cyfleoedd i bobl leol fentro a llwyddo. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal.

**DIOLCH**

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2023

A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON

ANTUR NANTLLE CYF.

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 1 |
| Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr | 2 |
| Adroddiad Yr Archwilwyr | 3 - 4 |
| Datganiad Incwm | 5 |
| Mantolen | 6 |
| Nodiadau | 7- 9 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl | 10 |

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2022**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2023.

### Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

### Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Talfryn Griffiths
John Pritchard
Dafydd Owen
Dyfed Wyn Edwards
Gwynne Williams
Eifion Wyn Davies
Judith Humphreys
Alun Ffred Jones

Beryl Fretwell
Richard Wyn Huws
Emrys Jones (Ymddiswyddodd 31/12/2022)
Myrddin Williams
Owain Rowlands
Karen Owen
Huw Roland Evans

### Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmniau 2006 ) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd y camau y dylient fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

### Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariarthau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmniau 2006 yn ymwneud a cwmniau bach.

Dyddiad: 21-09-2023

Drwy orchymyn y bwrdd

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr**

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmniau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmniau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;

- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;

- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmniau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad: 21-09-2023

[signature]

Drwy orchymyn y bwrdd

## Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf (y 'Cwmni') am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31 2023 sydd yn cynnwys y Datganiad Incwm, Y Fantolen ar nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi y cyfrifon yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbyniwyd yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

-rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2023 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;

-wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig

-wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmniau 2006.

### Sail Ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Rydym yn annibynnol o'r cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC ynghyd a'r darpariaethau ar gael i unedau llai, yn yr amgylchiadau amlinellir yn nodyn 1 or datganiadau ariannol ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer sail ein barn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes byw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes byw o gyfrifyddu yn briodol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau sydd, yn unigol neu ar y cyd, gall daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas a'r sail busnes byw yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol ac ein Adroddiad yr Archwilwyr arno.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o farn sicrwydd arno.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gasglwyd yn yr archwiliad neu fel arall ymddengys ei fod wedi ei gamddatgan yn faterol . Os, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i berfformio, rydym yn casglu bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael ei baratoi yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- Paratowyd Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

### Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmniau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmniau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu

## Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad;neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmniau bach ac i gymeryd mantais o'r eithriad i gwmniau bach or gofyniad i baratoi Adroddiad Strategol neu wrth baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr.

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn fwy llawn yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 2, y cyfarwyddwyr sydd yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn dangos darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol o'r fath a benderfynir gan y cyfarwyddwyr yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes byw gan ddatgelu materion ble'n berthnasol,materion cysylltiedig i'r sail busnas byw ar defnydd o'r sail cyfrifyddu busnas byw oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni neu dod a gweithrediadau I ben neu os does dim dewis realistig arall ond i wneud hynny.

### Ein cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein amcanion yw casglu sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli.

Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn sylweddol pe bai, yn unigol neu ar y cyfan, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a gymerwyd gan defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rydym wedi asesu bod y risg i'r datganiadau ariannol o fod yn agored i gamddatganiad perthnasol yn isel.

Credwn fod gwaith archwilio a wnaed yn ddigonol i nodi camddatganiad perthnasol. Mae'r Deddfau a'r rheoliadau allweddol sy'n effeithio ar gallu'r cwmni i fasnachu yn ymwneud â Iechyd a Diogelwch ac canllawiau Rhentu Doeth Cymru.

Rydym ni heb nodi na chael gwybod am dwyll gwirioneddol neu amheuaeth o achosion neu achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau allweddol.

Barnwyd fod profiad y tîm archwilio yn ddigonol i nodi twyll neu wallau yn yr apwyntiad hwn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol wedi ei leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad yma yn ran o Adroddiad yr Archwilwyr

### Defnydd O'r Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmniau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiateir trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Dyddiad: 21/9/2023

**Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)**
**ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni**
**Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig**
**Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS**

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Datganiad Incwm Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2023**

| | Nodiadau | **2023** | 2022 |
|---|---|---|---|
| | | **£** | £ |
| **Incwm** | | **184,620** | 171,518 |
| Gwariant | | **(174,392)** | (140,557) |
| **Incwm Sy'n Weddill** | 2 | **10,228** | 30,961 |
| Llog Derbyniadwy | | **625** | 13 |
| Llog a Dalwyd | | **(955)** | (174) |
| **Gweddill/(Colled) Cyn Trethiant** | | **9,898** | 30,800 |
| Trethiant | 3 | **(9,135)** | (5,010) |
| **Gweddill Ar Ol Trethiant** | | **763** | 25,790 |
| Gweddill Ddygwyd Ymlaen | | **210,992** | 185,202 |
| **Gweddill Cariwyd Ymlaen** | | **211,755** | 210,992 |

**ANTUR NANTLLE CYF**
**Mantolen Ar Fawrth 31, 2023**

| | Nodiadau | **2023** | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£** | **£** | £ | £ |
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Asedau Cyffyrddadwy | 5 | | **1,215,024** | | 632,263 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 6 | **12,899** | | 15,969 | |
| Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw | | **141,390** | | 137,634 | |
| | | **154,289** | | 153,603 | |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn | 7 | **(82,804)** | | (57,381) | |
| Asedau Cyfredol Net | | | **71,485** | | 96,222 |
| **Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | **1,286,509** | | 728,485 |
| **Credydwyr:** symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | | | | | |
| Croniadau Ac Incwm Gohiriedig | 8 | | **(61,812)** | | (85,113) |
| Benthyciadau banc | 9 | | **(615,394)** | | (33,680) |
| Treth Gohiriedig | | | **(4,602)** | | (5,754) |
| | | | **604,701** | | 603,938 |
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfa Elw a Cholled | | | **211,755** | | 210,992 |
| Cronfa Ailbrisio | 10 | | **392,946** | | 392,946 |
| | | | **604,701** | | 603,938 |

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmniau bach.

HR Evans ____________ Cyfarwyddwr

John M Pritchard ____________ Cyfarwyddwr

21/09/2023 ____________ Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2023**

## 1 Polisiau Cyfrifyddol

***Y sail gyfrifyddol***

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a gofynion Adran 1A "Unedau Llai" o Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol perthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a Deddf Cwmniau 2006. Mae'r cyfrifon wedi ei paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

***Asedau sefydlog cyffyrddadwy***

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.
Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau | - 4%/5% o'r gost pob blwyddyn |
| Offer | - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau |
| Cyfrifiaduron | - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau |

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

***Grantiau***

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

***Trethiant***

Mae trethiant ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn cynnwys treth gyfredol a gohiriedig. Cydnabyddir treth yn y datganiad incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir fel incwm cynhwysfawr arall neu yn uniongyrchol mewn ecwiti.
Nid yw asedau a rhwymedigaethau trethiant cyfredol neu ohiriedig yn cael eu disgowntio.
cydnabyddir trethiant cyfredol fel y swm treth sy'n daladwy gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd yn sylweddol erbyn dyddiad y fantolen.

***Treth Ohiriedig***

Cydnabyddir treth ohiriedig o ran yr holl wahaniaethau amser sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi eto ar ddyddiad y fantolen.
Mae gwahaniaethau amseru'n codi o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau gwahanol i'r rhai y maent yn cael eu cydnabod mewn datganiadau ariannol. Caiff treth ohiriedig ei fesur gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau a ddeddfwyd erbyn diwedd y flwyddyn a disgwylir iddynt fodoli pan fydd y gwahaniaethau amseru yn gwrthdroi.

***Archwilwyr***

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

## 2 Incwm Sy'n Weddill

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| Mae'r incwm sy'n weddill ar ol; | **£** | £ |
| *Rhoi credyd am;* | | |
| Incwm Gohiriedig a ryddhawyd | **23,761** | 23,761 |
| *Ac ar ol codi am:* | | |
| Dibrisiant | **44,242** | 26,909 |
| Archwilio | **2,700** | 2,600 |

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2023**

| | | **2023** | 2022 |
|---|---|---|---|
| **3** | **Treth Gorfforaeth** | **£** | £ |
| | Treth Ohiriedig | **(1,152)** | (1,440) |
| | Darpariaeth am y Flwyddyn | **10,287** | 7,309 |
| | | **9,135** | 5,869 |

**4 Gweithwyr**

Ar gyfartaledd roedd nifer y gweithwyr cyflogedig yn 4 (2022 yn 4.)

**5 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy**

| | **Tir Rhydd-ddaliad Ac Adeiladau** | **Offer** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| **Cost** | £ | £ | £ |
| Ar Ebrill 1af 2022 | 743,831 | 87,201 | 831,032 |
| Ychwanegiadau | 627,003 | - | 627,003 |
| Ar Fawrth 31 2023 | 1,370,834 | 87,201 | 1,458,035 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar Ebrill 1af 2022 | 141,851 | 56,918 | 198,769 |
| Codiant am y flwyddyn | 38,179 | 6,063 | 44,242 |
| Ar Fawrth 31 2023 | 180,030 | 62,981 | 243,011 |
| **Gwerth Ar Bapur Net** | | | |
| **Ar Fawrth 31 2023** | **1,190,804** | **24,220** | **1,215,024** |
| Ar Fawrth 31 2022 | 601,980 | 30,283 | 632,263 |

| | | **2023** | 2022 |
|---|---|---|---|
| **6** | **Dyledwyr** | **£** | £ |
| | Dyledwyr Eraill | **4,927** | 4,444 |
| | Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd | **7,972** | 11,525 |
| | | **12,899** | 15,969 |

**7 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn**

| | **£** | £ |
|---|---|---|
| Benthyciad banc | **18,285** | 8,268 |
| Credydwyr eraill | **49,551** | 37,578 |
| Treth Gorfforaeth | **10,287** | 6,450 |
| TAW | **4,681** | 5,085 |
| | **82,804** | 57,381 |

**ANTUR NANTLLE CYF.**
**Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2023**

**8 Croniadau Ac Incwm Gohiriedig**

| | £ |
|---|---|
| Ar Ebrill 1af, 2022 | **85,113** |
| Grant am y Flwyddyn | - |
| Swm a Rhyddhawyd | **23,301** |
| **Ar Fawrth 31, 2023** | **61,812** |

**9 Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn**

| | **2023** | 2022 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Benthyciadau Banc | **615,394** | 33,680 |
| Dyled yn daladwy mewn mwy na blwyddyn | | |
| ad-daladwy rhwng un a phum mlynedd | **62,567** | 33,680 |
| ad-daladwy ar ol pum mlynedd | **552,827** | - |
| | **615,394** | 33,680 |

**10 Cronfeydd**

| | **Cronfa Gwerth Teg** |
|---|---|
| | **£** |
| Ar 1af Ebrill 2021 ac Mawrth 31 2022 | **392,946** |

**11 Gwybodaeth Statudol**

Mae Antur Nantlle Cyf yn gwmni preifat ac yn gyfyngiedig drwy warant.
Mae'r cwmni wedi ei gofrestru yn Nghymru a Lloegr.

Swyddfa gofrestredig: Swyddfa 8, Ty Iorweth
39 Heol Y Dŵr
Penygroes
Caernarfon, LL54 6LW

ANTUR NANTLLE CYF.
**Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2023**

| | 2023 | | 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Incwm** | | | | |
| Gwasanaethau | | 7,495 | | 6,711 |
| Rhent | | 116,920 | | 114,089 |
| Canolfan Rhyd Ddu | | 54,367 | | 26,158 |
| Grantiau | | 3,950 | | 23,609 |
| Incwm Arall | | 1,888 | | 951 |
| | | 184,620 | | 171,518 |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau | (23,301) | | (23,761) | |
| Cyflogau | 43,884 | | 43,783 | |
| Costau Pensiwn | 1,316 | | 1,314 | |
| Costau Teithio | 454 | | 276 | |
| Costau Rhyd Ddu | 5,652 | | 9,285 | |
| Costau Prosiectau | - | | 11,196 | |
| Costau Swyddfa | 248 | | 255 | |
| Llogi Offer | 178 | | 118 | |
| Ffon | 1,459 | | 1,575 | |
| Hysbysebu | 1,919 | | 1,635 | |
| Costau Cynnal A Chadw | 49,419 | | 33,321 | |
| Gwres a Goleuo | 11,134 | | 13,186 | |
| Trethi | 2,671 | | 1,084 | |
| Yswiriant | 11,174 | | 12,714 | |
| Costau Archwilio | 2,700 | | 2,600 | |
| Costau Proffesiynol | 5,483 | | 1,218 | |
| Costau Banc | 13,362 | | 1,228 | |
| Manion | 2,398 | | 2,621 | |
| Dibrisiant Ar Adeiladau | 38,179 | | 19,329 | |
| Dibrisiant Ar Offer | 6,063 | | 7,580 | |
| | | 174,392 | | 140,557 |
| **Gweddill am y flwyddyn** | | 10,228 | | 30,961 |

ANTUR NANTLLE CYF

GWEITHIO ER LLES YR ARDAL


Swyddfa 8
Tŷ Iorwerth
39 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LW

01286 882688
post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com
www.canolfan-rhyd-ddu.cymru
www.facebook.com/anturnantlle